# DINESYDD

## Medi

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 118


# J SAUNDERS LEWIS
# 1893-1985

J.S.L.

Disgynnaist i'r grawn ar y buarth clyd o'th nen
Gan ddallu a'th liw y cywion oll a'r cywennod;
A chreaist yn nrysau'r colomendy uwch dy ben
Yr hen, hen gyffro a ddigwydd ymhlith colomennod.
Buost ffôl, O wrthodedig, ffôl; canys gwae
Aderyn heb gâr ac enaid digymar heb gefnydd;
Heb hanfod o'r un cynefin yng nghwr yr un cae -
Heb gorff o gyffelyb glai na Duw o'r un defnydd.
Ninnau barhawn i yfed yn ddoeth, weithiau de
Ac weithiau ddysg ym mhrynhawnol hedd ein stafelloedd;
Ac ar ein clyw clasurol ac ysbryd y lle
Ni thrystia na phwmp y llan na haearnbyrth celloedd.
Gan bwyll y bwytawn, o dafell i dafell betryal,
Yr academig dost. Mwynha dithau'r grual.

R.Williams Parry
1937

BARDD, DRAMODYDD, nofelydd, beirniad, hanesydd, colofnydd, gwleidydd a phroffwyd. Amhosibl yw i unrhyw deyrnged wneud cyfiawnder â chyfraniad aruthrol Saunders Lewis i Gymru'r ganrif hon. Bu ei ddylanwad ar feddwl a bywyd Cymru yn ddyfnach ac yn ehangach nag a ellir ei werthfawrogi'n llawn. Amser a ddengys eto maint ein dyled iddo.

Bu farw Saunders Lewis yn ystod oriau man bore Sul 1 Medi yn Ysbyty'r Santes Gwenffrewi, Treganna, lle y bu'n gaeth i'w wely am fisoedd lawer. Yno hefyd, bron flwyddyn yn ôl bu farw'i briod yn 93 mlwydd oed. Ar ran holl ddarllenwyr Y Dinesydd hoffem fynegi ein cydymdeimlad dwys â'i ferch Mair Haydn Jones a'r teulu yn eu hiraeth a'u colled.

Fel llenor ac ysgolhaig, safai Saunders Lewis ben ac ysgwyddau uwchben ei gyfoedion, fel y dengys y cyfoeth o waith a adawodd i'r cenhedlaethau a ddaw. Ond yn anad dim, fel gwleidydd y dylid cofio amdano. Ef, yn ôl J.E.Jones, oedd 'pensaer Plaid Cymru. Ef yn anad neb a'i chynlluniodd ac a ofalodd am yr adeiladu a fu arni am ei chyfnod cyntaf".

Cymhelliad ei weithredu ar hyd ei oes oedd consyrn am Gymru - ei phobl a'i threftadaeth. Ni welai ddyfodol iddi heb ei hiaith, ac o'r herwydd roedd y frwydr drosti yn dyngedfennol.

Ei gymwynas fawr oedd y sylweddoliad mai trwy ddulliau tor-cyfraith y byddai'n rhaid gweithredu os am amddiffyn buddiannau'r iaith yn y pendraw. Dyna oedd neges y ddarlith radio 'Tynged yr Iaith', a ddarlledwyd ar 13 Chwefror 1962, ac a roddodd fod i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Ar waethaf ambell i ffrae a beirniadaeth hallt gan genedlaetholwyr, yn ogystal â'r sefydliad Cymreig a Phrydeinig, parhaodd i gefnogi'r sawl a

Trosodd

wnai safiad cadarn. Ym 1980, pan oedd y frwydr dros Sianel Gymraeg yn ei hanterth, a charfan fechan ond dylanwadol o Gymry amlwg yn pledio rhoi'r ffidil yn y to, anfonodd y gerdd rymus hon i'r 'Faner':

Eto mae elwch,
Nid af dan bwdu i'r llwch;
Mae'r deugain mlynedd o Gymru glên
A'r cyfreithlondeb marwol ar ben;
Mwy, os bydd marw, bydd gwaed
Nid llysnafedd dan draed;
Ni chredais y gwelwn yr awr -
Taflwyd carreg at gawr;
Pendefigion ein Planed,
Pennar, Meredydd, Ned.

Bydd y cof amdano yn ysbrydoliaeth parhaus i'r sawl sy'n ymgyrchu dros yr iaith, a dyna, mae'n siwr, fyddai ei ddymuniad ef:

Minnau yn awr galwaf ar fy nghyfeillion,
Cyffredin ac ysgolhaig,
Deuwch ataf i'r adwy,
Sefwch gyda mi yn y bwlch,
Fel y cadwer i'r oedoedd a ddêl
y glendid a fu.

GWEDDI'R TERFYN

Mae'n brofiad i bawb na ŵyr neb arall amdano.
Pob un ar ei ben ei hun yn ei ddull ei hun
Piau ei farw ei hun
Trwy filiynau blynyddoedd yr hil.
Gellir edrych arno, gellir weithiau adnabod yr eiliad;
Ni ellir cydymdeimlo â neb yn yr eiliad honno
Pan baid yr anadlu a'r person ynghyd.
Wedyn? Nid oes yn ymestyn i'r wedyn ond gweddi'n ymbalfalu.
Mor druan yw dyn, mor faban ei ddychymyg:
"Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau",
Cyn dloted â ninnau, yr un mor ddaearol gyfyng
Oedd ei athrylith yntau ddyddiau yr ymwacâd.
Ninnau ni fedrwn ond felly ddarlunio gobaith:
"Mae'n eistedd ar ddeheulaw Dduw Dad hollalluog",-
Cadfridog a'i orfoledd drwy ddinas Rhufain
Wedi'r enbydrwydd mewn Persia o greadigaeth
A'i goroni'n Awgwstws, Cyd-Awgwstws â'i Dad,-
Mor ddigri yw datganiadau goruchaf ein ffydd.
Ac o'n cwmpas erys mudandod a'r pwll diddymdra
Y syrth ein bydysawd iddo'n gyfan ryw nos.
Ni all ein geiriau olrhain ymylon mudandod
Na dweud Duw gydag ystyr.
Un weddi sy'n aros i bawb, mynd yn fud at y mud.

Saunders Lewis.

Daw'r soned 'J.S.L.' o'r gyfrol 'Cerddi'r Gaeaf' gan R.Williams Parry (Gwasg Gee, 1952) a'r gerdd 'Gweddi'r Terfyn' o'r detholiad 'Cerddi '74' a olygwyd gan T.Gwynn Jones (Gwasg Gomer, 1974). Cyhoeddwyd cerdd Saunders Lewis i'r tri a weithredodd ym Mhencarreg yn 'Y Faner' ar 15 Chwefror 1980.

## CYDYMDEIMLAD

COLLED: Cydymdeimlwn â Robert a John Roberts a'r teuluoedd yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli tad.

MARW: Cydymdeimlwn â Melora Parry a'r teulu ar eu profedigaeth sydyn o golli cymar.

COLLI TAD: Cydymdeimlwn â Ruth Parry a'i theulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

MARW: Bu farw Mr.E.Parry Richards, Rhiwbeina. Roedd yn frodor o Danygrisiau a bu'n gyfrifydd yn Llundain am dros ddeugain mlynedd cyn ymddeol a dod i fyw i Gaerdydd saith mlynedd yn ol. Estynwn ein cydymdeimlad i Mrs.richards ac i'r plant Mair a John.

## LLONGYFARCH

DATHLU: Penblwydd Hapus i Miss Hettie Edwards, Heol y Delyn, Llysfaen, ar gyrraedd ei phedwar ugain oed. Mae hi a Miss Gwenfron Moss sy'n 87 yn ddarllenwyr cyson o'r Dinesydd ac wedi cyfrannu'n haul tuag ato o'r cychwyn.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Lowri, merch y Barnwr a Mrs.hywel ap Robert, ar ei phriodas a Mr.Phil Carling, ysgrifennydd Clwb Criced Morgannwg.

# TECELA

gan Meurwyn Williams

"MAE'N HAWS BOD yn Gristion yn Ne Affrica nag yng Nghymru rwy'n siwr" medde fe uwchben y pryd bwyd hwnnw yn ninas Vancouver. "Siwd ar wyneb y ddaear ry'ch chi'n gallu dweud hynny?", meddwn innau, gan gofio mai dim ond trwy ganiatad llywodraeth orthrymus ei wlad roedd e wedi dod i Ganada. "Wel, mae gyda ni achos welwch chi," medde fe - "The lines are drawn; fe wyddom ni lle rydyn ni'n sefyll."

Y Gwir Barchedig Desmond Tutu, Esgob Johannesburg oedd yn sgwrsio gyda mi am gyflwr adfydus y dyn du yn Ne Affrica. Erbyn hyn, mae stori'r gorthrwm i'w gweld yn nosweithiol ar sgrin deledu. A beth yw maint ein gofid ni drostynt? Yr wythnos ddiwethaf, arestiwyd un arall o Dde Affrica oedd yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Vancouver. Dyn lliw, gweinidog a chaplan coleg, y ceisiwyd dwyn anfri ar ei gymeriad yn gynharach eleni - Dr.Allan Boesak, llywydd y Cyngrair o Eglwysi Diwygiedig Byd-Eang. Fe'i cipiwyd ar y dybiaeth ei fod yn mynd i arwain protest at garchar Nelson Mandela, jest felna! Ac wrth i mi ysgrifennu hyn, wyddon ni ddim beth sydd wedi digwydd iddo, yn gywir fel tase Noel Davies, ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymru wedi ei roi yng ngharchar Abertawe heb egluro i'w wraig na neb arall o'i gydnabod pam y gwnaed hynny.

Ac ar hyn o bryd mae tim rygbi Crawshay yn Ne Affrica, welodd clybiau Cymru ddim yn dda i dorri cysylltiad â'r wlad. Mae Zola Budd yn rhedeg yn enw Prydain, a De Affrica yn llyfu'r hufen oddi ar ei wefl.

"Gwedwch wrth y'ch tim rygbi am beidio dod i Dde Affrica", medde Desmond Tutu, "oherwydd fe fydd cael ei thorri ffwrdd oddi wrth y byd chwaraeon yn loes calon i Dde Affrica". Fe sydd hefyd yn dweud wrth Brydain a gwledydd eraill am beidio delio'n economaidd â De Affrica - "a pheidiwch a defnyddio dioddefaint y dyn du fel esgus - dy'ch chi ddim yn credu ei fod yn gwybod yn iawn bellach beth yw dioddef?"

Ac felly, i eglwysi a Christnogion sy'n chwilio am Achos, onid dyma un? peidio prynu ffrwythau o Dde Affrica; peidio prynu dillad wedi eu gwneud yn Ne Affrica; bod yn ymwybodol o gwmniau sydd â buddsoddion yn Ne Affrica. Dyma ysgrifennodd Allan Boesak yn ddiweddar: "Rydw i wedi darganfod fod ufuddhau i Dduw o fewn cyd-destun sefyllfa De Affrica yn golygu ymroddiad beunyddiol, nid unwaith ac am byth". O fewn y teulu Cristnogol, mae nhw'n disgwyl yr un ymroddiad oddi wrthym ninnau.

Y MIS NESAF: Esgob Newydd Llandaf.

# CADEIRYDD NEWYDD I HTV

CAFWYD CROESO BRWD yn y byd darlledu i benodiad Syr Melfyn Rosser yn Gadeirydd HTV Grwp ccc. Bydd Syr Melvyn, sy'n 58 mlwydd oed, yn ymgymryd â'r gadair-yddiaeth ar 1 Ionawr 1986, yn dilyn ei ymddeoliad o Deloitte, Haskins & Sells, un o'r cwmniau Cyfrifyddion Siartredig rhyngwladol mwyaf.

Bu cryn ddyfalu ers marwolaeth yr Arglwydd Harlech ar 26 Ionawr eleni ynghylch ei olynydd. Ac yn dilyn torri'r newydd am y penodiad gan y cylchgrawn LOL ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod daeth y cyhoeddiad ffurfiol gan HTV ar y dydd Mawrth.

Daw Syr Melvyn i'r Gadair ar adeg tyngedfennol yn hanes HTV a darlledu Cymraeg, pryd y bydd angen arweiniad doeth a meddwl clir. Bu'r 80au yn gyfnod llewyrchus i HTV, gyda chynnydd mewn incwm hysbysebu, ac yn sgil dyfodiad S4C codwyd canolfan deledu newydd gyda'r adnoddau mwyaf modern. Hwyrach mai'r sialens yn ystod y pum mlynedd nesaf fydd defnyddio'r seiliau cadarn a osodwyd i wasanaethu Cymru gyfan.

Nid yw'n eglur eto a fydd penodiad Syr Melvyn yn golygu newidiadau yn nhrefiant gweinyddol HTV Cyf. Un cwmni o fewn HTV Grwp ccc yw'r cwmni teledu, ac mae Ron Wordley ar hyn o bryd yn Gadeirydd ac yn Brif Weithredwr arno.

Mae Syr Melvyn yn enedigol o Abertawe ac fe'i addysgwyd yn Ysgol Glanmor a'r Ysgol Ramadeg yno. Daeth yn gyfrifydd siartredig ym 1949, ac ymunodd â chwmni Deloitte yn Abertawe flwyddyn yn ddiweddarach. Daeth yn bartner ym 1961 ac ers hynny bu'n gweithio i'r cwmni yn Nghaerdydd a Llundain.

Yn ogystal â'i waith gyda Deloitte's bu'n gwasanaethu mewn sawl swydd gyhoeddus. Bu'n gyfarwyddwr Cwmni Bysiau Cenedlaethol, Y Gorfforaeth Ddur Brydeinig a Bwrdd Telathrebu Cymru a'r Gororau. Bu'n aelod o Gyngor Economaidd Cymru, ac yn Gadeirydd y Cyngor Cymreig. Roedd yn aelod o'r Comisiwn Brenhinol ar Safonau Ymddwyn Mewn Bywyd Cyhoeddus, a bu'n gwasanaethu ar Bwyllgor y Prif Weinidog ar Benodiadau Busnes Allanol.

Mae Syr Melfyn yn aelod rhan-amser ar y Bwrdd Glo Cenedlaethol ers 1983, mae'n cynrychioli Cymru ar Gomisiwn y Gweithlu ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cymreig y Comisiwn. Ar hyn o bryd mae'n Is-lywydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Yn sicr mae ganddo'r cymwysterau a'r gallu i arwain un o gwmniau mwyaf Cymru. Hoffai'r Dinesydd ei longyfarch ar ei benodiad a dymuno'r gorau iddo yn ei swydd newydd.

CANOLFAN GLANTAF
1985-1986

O'R MIS HWN ymlaen bydd Canolfan Glantaf yn brysur unwaith eto yn cynnig bob math o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym athrawon profiadol a medrus yn barod i rannu eu gwybodaeth a Chymry cymraeg y ddinas hon. Hefyd, rhaid cofio'r rheiny sydd am ddysgu'n hiaith - gwelir dosbarthiadau ar gyfer y dysgwyr o bob safon gan gynnwys safon 'O' ac 'A'.

Dewch, felly, i ymuno a ni yng Nglantaf eleni. dyma rai o'r dosbarthiadau:
Teipio; Yoga; Cadw'n Heini; Garddio; Crefftwaith - creadigol a thraddodiadol; Llawysgrifen Gain; Gwniadwaith; Gwerthfawrogi Cerddoriaeth; Rhai agweddau ar lenyddiaeth gymraeg ddiweddar; Cyfrifiaduron; Cwrs i Athrawon Meithrin Profiadol; Cwrs i arweinyddion cylchoedd Mam a'i phlentyn; Addurno Cacennau; Coginio Bwyd Cyflawn.

Cofrestrir aelodau yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 16 medi am 7.00 o'r gloch. Am fanylion pellach cysylltwch â:
Ann Evans - Pennaeth y Ganolfan neu gwyneth Lewis - Dirprwy.
Pfon: 842056

CLWB CINIO'R GWRAGEDD

FEL CLWB, CAREM bwysleisio, nad oes tal aelodaeth nac unrhyw amod i fod yn rhan o'r cwmni siriol. Mae croeso i bawb o bob oed. Llywydd y Clwb am y tymor hwn yw Myfanwy Jarman. Beth am ddod i'r noson gynta sef Medi'r 12fed pryd y cawn ein diddori gan Rhiannon Rees o Adran Rhaglenni Plant y BBC?

Ein man cyfarfod yw Gwesty'r Cedars/Phoenix yn Llanishen a hynny am 7.30. Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch a'r ysgrifenyddion - a hynny erbyn nos Fawrth cyn y cyfarfod - Gwen Owen (566720) neu Julia Lloyd (755296).

## LLONGYFARCH

CHWAER: Llongyfarchiadau i Jackie ac Endaf Emlyn a chroeso mawr i Hanna Llio, chwaer fach i Lowri Angharad. Pawb wedi dotio.

GENI: Llongyfarchiadau i Nan a Dewi Rowlands ar enedigaeth Gwen, chwaer fach i Ifan. Mae Vera a Seiriol wedi gwirioni unwaith eto.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Aled Ffransis Roberts a Mair Wyn Jones ar eu priodas yng Nghaernarfon ar 24 Awst. Mair yw cyfeilydd Côr Treforus a Twics yw capten tim peldroed Aelwyd yr Urdd. Da cyhoeddi iddo sgorio o'r diwedd.

Y DINESYDD

Diolch i
Phyllis a Mered

Nos Wener 20fed o Fedi
8.00 o'r gloch ymlaen

yng Nghoed y Pry
3 Llandennis Avenue

Swper Ysgafn - £3.

Ffoniwch:
Shan Emlyn 751469

# LLYTHYRAU

54 Heol Uchaf
Rhiwbeina
Caerdydd
ffon: 616548

Annwyl Dinesydd,

Hoffwn brynu copiau ail-law o Crwydo Ceredigion a Chrwydro Sir Gar. Tybed a fedrai'r Dinesydd ddod o hyd i rai?

Yr eiddoch yn gywir,
Dr.Olive Frost.

10 Kyle Crescent
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd

Annwyl Dinesydd,

Rwyf wedi bod yn gohebu â Chyngor Dinas Caerdydd i geisio cael ffurflen dwyieithog i dalu'r trethu drwy randaliadau misol. Er i mi fethu â chael ffurflen dwyieithog ganddynt telais y trethi yn y diwedd (er mwyn dangos ewyllys da!) ond gan ofyn a fyddent yn argraffu ffurflenni dwyieithog ar ol i'r stoc bresennol ddod i ben. Chefais i ddim ateb i'r cwestiwn hwnnw ond yn hytrach y frawddeg ryfedd hon:

Yn unol â polisi y Cyngor, fe fydd ffurflenni trethu ac llythyron sydd yn niferog yn cael eui darparu yn Saedneg."
(Eu sillafu hwy.)

Gobeithiaf y bydd rhagor yn ysgrifennu i roi pwysau ar y Cyngor:

1. i ddarparu pob ffurflen yn ddwyieithog pan ailargreffir ar ol defnyddio'r stoc bresennol.
2. i sicrhau fod eu holl ohebiaeth a'r cyhoedd yn ddwyieithog - e.e. y ffurflen esboniadol a ddosberthir gyda'r ffurflen dreth; y ffurflen esboniadol a ddosberthir gyda'r bagiau ysbwriel plastig du, sy'n dweud ble mae'r tipiau, ac yn y blaen.

Wrth gwrs dylai'r Cyngor Sir ddod o dan yr un pwysau. Pa les darparu addysg Gymraeg oni ellir defnyddio'r iaith yn gyhoeddus?

Mae'r angen am ddeddf Iaith Newydd yn amlwg.

Yr eiddoch,
Hywel Merfyn


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

Mabsant
101 Newbridge Road
Llantrisant
Canol Morgannwg
Llantrisant: 223022

Annwyl Dinesydd,

Bydd un o brif gerddorion LLydaw yn perfformio yng Nghymru o Hydref 1 - 11 eleni. Bu PADRIG SICARD yn perfformio yn yr un grwp a Alan Stivell am chwe mlynedd, ac fe fydd ef a'i frawd, Ronan, yn dod yma i berfformio ar y bombard, syntheseiddydd, pib, bouzoucí a'r ffidil ac yn rhoi ambell i gân.

Ffidil yw prif offeryn Padrig, fel y dangosodd droeon pan ennillodd gystadleuaeth ffidil Gwyl Langonnet dro ar ôl tro. Bu'n perfformio ar y bombard gyda'r Bothy Band ym Mharis, ac yn teithio Llydaw a'r Iwerddon yn canu gyda Andy Irvine a Jane Cassidy. Padrig hefyd a gyd-ffurfiodd y grwp Llydewig Ogham gyda'r pibydd Patrick Molard.

Mae amserlen y daith fel a ganlyn:

Hyd.3 Jeffrey's Arms,Aberpennar
Hyd.5 Neuadd Dewi Sant,canol dydd
Hyd.5 Clwb y Bont, Pontypridd
Hyd.6 3 Horsehoes, Marcross,
Llanilltud Fawr
Hyd.7 3 Horseshoes, Tonteg
Hyd.9 Clwb Ifor Bach - gyda Crepes Llydewig!

Achubwch y cyfle i weld a chlywed yn un math o gerddoriaeth a swynodd lwyfannau a chynulleidaoedd Cymru rhyw ddeng mlynedd yn ol!

Manylion llawn o'r cyfeiriad neu'r rhif ffon uchod.

Yr eiddoch yn gywir,
Siwsann George.

---

CÔR CANOLFAN CAERDYDD

A OES GENNYCH lais i ganu? A ydych yn hoff o fiwsig? Oes yna gân yn eich calon? Os yw eich ateb yn gadarnhaol i un neu fwy o'r cwestiynnau uchod, beth am ymuno â chôr Canolfan Caerdydd. Bydd croeso mawr i chwi.

Yn ystod y flwyddyn mae'r cor yn bwriadu cynnal un cyngerdd ffurfiol, yn ogystal a chanu mewn eisteddfodau a nosweithiau llawen. Fe drefnir nosweithiau cymdeithasol hefyd yn ystod y flwyddyn a gobeithiwn drefnu taith penwythnos i gynnal cyngerdd neu dda yn y Gogledd a'r Gororau.

Dal i fod a diddordeb? Wel, ymunwch â ni ar nosweithiau Iau am hanner awr wedi saith yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu er mwyn inni gael cychwyn ar gyfnod newydd yn llawn hwy a chân.

# Coffáu Enid

MWY NA THEBYG na chafodd y mwyafrif ohonoch gyfle i weld y tlws a gyflwynwyd yn Eisteddfod yr Urdd eleni, er cof am Enid Jones Davies.

Y funud ola' bron, y daeth i law, gan wireddu dymuniad nifer o gyn-ddisgyblion Bryntaf. Amserol iawn oedd cyflwyno'r wobr goffa i'r Urdd yng Nghaerdydd yn dilyn sefydlu pedair ysgol gynradd Gymraeg yn y brifddinas, a'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu o hyd.

Ond yn ôl at y tlws. Fe'i gweithiwyd gan Alan Shiess sy'n hyfforddwr yng nghanolfan atgyweirio offerynnau Abertridwr ac sydd eisoes wedi profi ei fedr drwy wneud enghreifftiau hynod o lwyddiannus o ddau offeryn llinynnol, sef gitar a thelyn.

Fe ddefnyddiodd Alan dderw o ardal Meidrim a cherfio cylch o ddail deri ar res fel cadwyn i ddynodi parhad o genhedlaeth i genhedlaeth.

Yna fe gawsom linell o gynghanedd gan Ithel Davies mewn llythrennau aur yn y canol: "Llonnwn fyd â'n llawen fyw".

Dyna atgof melys a phersonol o Enid Jones Davies a hefyd gyfle i bawb ohonom oedi ac ystyried ychydig sut y gallwn ni chwarae'n rhan i greu hapusach fyd.

Fe gofiwch inni fynd ati i lunio record Bryntaf yn dwyn y teitl "Ar Daf, yr iaith a dyfodd", ac er fod prynu a gwerthu brwdfrydig wedi bod, mae yna recordiau a chasetiau ar ôl. Os ydy'r rhychan bron a threulio gan fod ambell i blentyn yn hoffi chwarae'r un don gron o fore gwyn tan nos, neu os ydy clywed lleisiau plant yn dod a deigryn i lygad Wncwl Jac yn Awstralia, wel mynnwch gopi arall am y pris gostyngedig, sef punt yn unig.

Efallai fod rhai ohonoch heb glywed y record hyd yn oed - wel, dyna ni, beth yw punt i lenwi twll yn yr hosan Nadolig? Fe gewch bleser gwerth punnoedd wrth glywed a chofio rhai o'r caneuon a'r lleisiau ac fe ddysgwch ambell un newydd hefyd.

Os hoffech archebu record neu gaset neu gyfrannu tuag at Wobr Goffa Enid Jones Davies, fe fyddai Iolo Walters (ffôn: 612947) neu Sian Thomas (693909) yn falch iawn i glywed oddi wrthych.

# Arddangosfeydd MEDI

1. AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Parc Cathays:
Eitemau pres hynafol o China tan 8 Medi. Copiau o'r un maint â'r gwreiddiol yn Beijing.

Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru:
Arddangosfa arbennig yn olrhain datblygiad y G.W.R. yng Nghymru. Hefyd, Diwydiant Cymru mewn celf tan 18 Hydref sy'n dangos dwy wedd wahanol drwy weithiau Adriano Candelori o Lanelli, a Valerie Ganz o Fanordeilo.

Tŷ Turner, Penarth:
Teyrnged i Evan Charlton - tan 24 Medi.
Ganed evan Charlton yn Llundain yn 1904, addysgwyd yn Ysgol y SLADE 1930-33 ar ôl pedair blynedd ym Mhrifysgol Llundain 1923-27. Bu'n bennaeth Coleg Celf Caerdydd 1930-45, ac yna'n Arolygwr ei mawrhydi. Bu farw ym Mhorthcawl mis Awst y llynedd.

2. ORIEL

Gwelwyd gwaith myfyrwyr Coleg Celf Dyfed yn ystod Gorffennaf ac Awst. Llwyddwyd i greu arddangosfa ddeniadol a diddorol, ynghyd â phamffledyn effeithiol dros ben.
Ym mis Medi, cyfle i weld Ben Jones o Bowys nid yn unig yn dangos enghreifftiau o'i gerfluniau mewn pren, brons a chlai, ond yn cynnal dosbarthiadau byw hefyd. Mae'n ymddangos bod Joy Goodfellow, rheolwr newydd Oriel yn llwyddo i ddenu a gosod arddangosfeydd diddorol iawn.

3. FFOTOGALLERY

Cyfle i weld gwaith Americanwr, sef Weegee yr Enwog o 2 Hydref hyd 2 Tachwedd. Dros 150 o luniau, rhai yn cael eu harddangos am y tro cyntaf.


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor [illegible]

CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones Ffon: 562816

MEDI

7 - CLWB IFOR BACH
Meic Stevens

9 - MERCHED Y WAWR
Festri Capel Minny Street.
7.15 Ymaelodi. 7.30 -
'Ann Griffiths a Mari Lewis'
Marion Eames.

10 - CLWB IFOR BACH
Dosbarthiadau Nos
Cymraeg I, Cymraeg II
Croesi'r Bont - Cofrestru

12 - MERCHED Y WAWR
Cangen Y Garth
Cyfarfod Cyntaf 1985-86
Neuadd y Pentre, Pentyrch
8.00 - Noson o groeso yng nghwmni EVELYN WILLIAMS.
Gwahoddiad cynnes i bawb - yn enwedig aelodau newydd.

14 - CLWB IFOR BACH
Plethyn

16 - CLWB IFOR BACH
Dydd Glyndwr - Noson Gymdeithasol Plaid Cymru
Plasnewydd.

19 - Y DINESYDD
Cyfarfod Blynyddol
Clwb Ifor Bach 7.30
Croeso i bawb.

20 - Y DINESYDD
Diolch i Mered a Phyllis
Coed y Pry, 3 Llandennis Ave
Tocynnau £3

21 - CLWB IFOR BACH
Pfenestri

21 - THEATR CHAPTER
Cwmni Cyfri Tri
'O'r Cysgod'

28 - CYMDEITHAS Y CYMOD
Yr Hen Gapel, Llanbrynmair
2.00. ererindod i gofio canmlwyddiant marw 'S.R.'

28 - CLWB IFOR BACH
Pererin Trydan

HYDREF

5 - NEUADD DEWI SANT
Padrig Sicard
Canol dydd

5 - CLWB IFOR BACH
Geraint Lovgreen a'r Enw Da

7 - MERCHED Y WAWR
Festri Capel Minny Street
'Morgannwg yn y ddeunawfed ganrif' - Conway Davies.

9 - CLWB IFOR BACH
Noson Lydewig gyda Padrig Sicard. Crempogau ar werth.

14 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel Bethel,
Penlline Rd., Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Yng ngofal y llywydd - Mrs.Lyn Osborne.

20 - NEUADD DEWI SANT
Teulu Dyn
Noson o ddathlu gyda rhai o sêr amlycaf Cymru, a'r elw'n mynd at newynog y Trydydd Byd.

Y DINESYDD

CYFARFOD BLYNYDDOL

Nos Iau 19 Medi 7.30
Clwb Ifor Bach

Cwynion?
Awgrymiadau?
Eisiau sgrifennu?
Am gynorthwyo?

Dewch draw
Croeso i bawb!

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Hydref at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Medi 19.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Dwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
**GWENAN**
**CAERDYDD 732233**
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.


YMDDEOL: Ar ol pedair mlynedd ar hugain fel cynhyrchydd yn adran chwaraeon y B.B.C. ymddeolodd Tom Davies ar 31 Awst. Yn ystod y blynyddoedd hyn gwnaeth Tom gyfraniad clodwiw i ddarlledu chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr un pryd ymddeolodd ei wraig Eirwen o'i swydd yn siop Oriel, Heol Siarl. Bu Eirwen yn gweithio i Oriel o'r diwrnod yr agorwyd y siop un mlynedd ar ddeg yn ol. Gwelodd y swydd yn cael ei hysbysebu yn y Dinesydd.

Ar hyn o bryd mae'r ddau yn teithio o gwmpas y byd; byddant yn ol yng Nghaerdydd tua diwedd mis Hydref. ein dymuniadau da i'r ddau am ymddeoliad hir a hapus.

# Colofn Shân Emlyn

"CHWIP O STEDDFOD" chwedl John Roberts Williams - ia wir medda finna! Mae 'na rywbeth cofiadwy ym mhob Steddfod i mi - wrth gyrraedd y Maes, ble bynnag y'i cynhelir, a gweld yr hen Bafiliwn 'na, mae nghalon i'n rhoi tro, a chlywaf fy hun yn sibrwd: "a dyma fi yno". I mi mae'r pafiliwn yn sumbol emosiynol. Wrth ei weld aiff fy meddwl fel saeth at fy rhieni a llawer o gyfeillion sydd wedi gadael yr hen fyd 'ma, pobol fu'n gyfrwng ac yn gyfrifol fy mod yn caru'r Steddfod a'r Pethe. Daw ton o chwithdod drostai am a fu - ond caf gysur wrth ddweud wrthyf fy hun "Mae NHW wedi mynd ond mae HWN yma o hyd". Dwi'n credu mai sumbol o'n parhad ni fel Cymry Cymraeg ydy'r pafiliwn i mi, ac yn ddolen gydiol sy'n cadw'r gorffennol yn glos at y presennol.

Ia wir, chwip o Steddfod oedd Steddfod y Rhyl a rhyw wefr newydd bob dydd, synhwyro'n amal bod 'na rhyw gyffro a hyder newydd yn y tir. Rhyfeddu yn y seremoniau bod gwerin gwlad yn llenwi'r pafiliwn i wrando'n astud ddeallus ar feirniadaeth lenyddol. Ymdeimlo ddydd Gwener yn seremoni 'Cymru a'r Byd' bod 'na angerdd newydd yn enaid y Cymro am heddwch byd.

Gwefr arall oedd gweld stondin S4C dan 'i sang bob pnawn, a'r plant yn canu'i hochor hi ac yn amlwg yn selogion y sianel, a nhw yw ei dyfodol. Darllen y Daily Post un bora am safiad Alwyn Roberts, Cadeirydd y BBC yng Nghymru, o blaid darlledu'r rhaglen ar eithafiaeth yng Ngogledd Iwerddon. Ton arall o falchder - Cymro Cymraeg yn sefyll ar ei ben ei hun dros egwyddor.

Chwip o Steddfod, Steddfod yr uchafbwyntiau a'r arloesi - soniaf am ddau yn unig. Profiad bythgofiadwy oedd bod yn un o'r dorf i godi ar fy nhraed i anrhydeddu dysgwr o Went yn ennill y gadair. Arwydd gobeithiol eto bod 'na ddeffroad. Bydd y digwyddiad hwn siawns gen i, yn hwb aruthrol i gyfeillion Casnewydd. Gobeithio y gallwn ni yng Nghaerdydd roi bob cymorth posib i ysgwyddo baich a her eisteddfod Casnewydd.

A'r pinacl - Arian Byw -cenedl fach a theulu'r Cymry Cymraeg yn dangos i'r byd ei chonsarn dros anffodusion Ethiopia - yr ysbryd, yr awyrgylch a'r haelioni yn drydanol syfrdanol. Fy ngobaith i ydy y bydd ysbryd yr Arian Byw yn treiddio i holl weithgarwch diwylliannol a dyngarol y Cymry Cymraeg. Wrth ffarwelio â'r Rhyl - oeddwn - mi roeddwn yn sibrwd unwaith eto "Ydan - mi ryda ni'n DIPYN o genedl".

---

DOES DIM BYD fel barddoniaeth am wneud Cymry parchus yn hwliganiaid. Pan fydd hwliganiaid pel droed yn cael hoe yn yr haf, bydd y boot boys barddonol yn dechrau arni o ddifri' yn y Steddfod.

Eleni cafwyd anghytuno rhwng Alan Llwyd a Dic Jones ar yr Awdl. Roeddynt yn gytun bod teilyngdod, ond yn anghytun ar y cwestiwn "Pwy sydd fwyaf teilwng?" Y buddugwr oedd Robat Powel, a diolch byth am ei awdl. Mae'n hen bryd i ni gael awdl gadeiriol yn y Steddfod Genedlaethol sy'n adlewyrchu bywyd Cymreig y gornel hon o'n gwlad. Roedd testun fel 'Cynefin' yn edrych yn redi-med ar gyfer rhyw druth am odro a charthu, ond cawsom siom o'r ochr orau yn awdl Robat Powel. Dyn o Went yn son am broblemau Cymry Gwent, sy'n broblemau hefyd i Forgannwg, Dyfed, Gwynedd Powys a Chlwyd. Yn wahanol i awdlau eraill sydd wedi eu gwreiddio mewn bro neu gymuned arbennig nid yw'n froliant nac yn alarnad. Nid oes moeswers syml i'r gerdd. Mae hi'n gorffen gyda chyfres o gwestiynau, yr unig ernes o obaith mewn cynefin nad yw ei baramedrau mor gysurus o bendant fel y gellir priodoli iddo barhad oesol, digyfnewid.

Awdl arall oedd Dic Jones am ei chadeirio, ac yn y cyfarfod i drafod y cyfansoddiadau ar fore Sadwrn, pennodd rhyw rhagluniaeth ei fod ef i eistedd nesaf at Robat Powel. Cawsom gyfiawnhad cyhyrog a theg gan Dic Jones o'i ddewis awdl. Yn y pendraw, mater o 'gut feeling' oedd hi, meddai. A dyma gymeradwyo brwd yn dod o bob cyfeiriad, yn arbennig felly o gyfeiriad Bardd y Goron.

Nid oedd hyn oll yn unrhyw dramgwydd i Robat Powel a ennillodd calon y gynulleidfa ar unwaith a'i wyleidd-dra hoffus. Nodwedd newydd gyffrous arall mewn bardd cadeiriol.

Tebyg oedd ymarweddiad Meg Elis yn yr un cyfarfod. Hi ennillodd y Fedal Ryddiaith am ddyddiadur yn son am ymweld a Chomin Greenham. Unwaith eto, roedd y testun (dyddiadur yn cofnodi treigl y tymhorau) yn redi-med ar gyfer - wel does dim angen ymhelaethu. Llwyddodd Meg Elis i droi'r dŵr anaddawol hwn i'w melin ei hun a chreu cyfrol gofiadwy, ar destun na chafodd ei drin o'r blaen yn y Gymraeg.

Ychydig o lwyddiant a ddaeth i gylch Y Dinesydd eleni. Rhaid llongyfarch un o gyfranwyr y golofn hon, Guto Dafis, ar ennill am gyfieithu drama Georg Buchner, 'Woyzeck', o'r Almaeneg.

Cyfrannodd sawl bardd o Gaerdydd hefyd i'r gyfrol "Hel Dail Gwyrdd", a olygwyd gan Menna Elfyn, cyfrol o waith gan ferched ydyw ac mae'n werth pob ceiniog. Crybwyllodd Elin ap Hywel mewn cyfarfod arall yn y Babell Lên fod y sefydliad barddonol yng Nghymru wedi bod yn rhy barod i ddiystyru gwragedd, hyd at yr eithaf abswrd o briodoli cerddi fel galarnadau Heledd a Phais Dinogad i ddynion. Dyma gyfrol sy'n gwneud tipyn i gywiro'r sefyllfa.

Mae pethau'n dal heb dawelu. Mae Gwynn ap Gwilym wedi dweud na fydd o fyth yn cystadlu eto. Och och a naw och ...

Emyr Lewis.

PIGION O'R MAES

LLONGYFARCHIADAU i Gôr Godre'r Garth ar eu buddugoliaeth yn y Rhyl.

---

Llongyfarchiadau i Nan Griffiths o Bentyrch ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth llunio Arweinlyfr i Gymru.

---

Llongyfarchiadau i Marc Edwards ar ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg.

---

Llongyfarchiadau i Wynne Lloyd ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth llunio chwe erthygl fer ar destunau amrywiol.

---

Llongyfarchiadau i David Elias, llanishen ar ennill cystadleuaeth cyfansoddi anthem.

---

Llongyfarchiadau i Cliff Jones ar ddod yn gydradd gyntaf am adrodd i gyfeiliant offeryn.

---

Ac yn olaf llongyfarchiadau i'n cynllunydd Cen 'Cartwn' Williams am ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth cartwnau. I'r sawl na welodd y deg cartwn yn yr arddangosfa Celf a Chrefft, atgynhyrchwn pedwar ohonynt ar y dudalen nesaf. Yn ein barn ni, o leiaf, Cen, "Iyw wos robd!"

---

ENGLYN

Pwy ŵyr bris y papur bro - seiadau'r
Cysodi a theipio
Papur y rhad lafurio
Yr iaith a ŵyr ei werth o.

Dafydd Wyn Jones
Maldwyn

Ymddiheurwn rad yw'r wybodaeth am y llyfrwerthwr Cymreig, Cavadog Llewelyn Cynddylan wedi'n cyrraedd mewn pryd i'r Stedfod. Afal y Wasg... Rhefrgar C.L.L.C. 1.

Rhidian T. Elis, Siôr y Cynyngan, Delhimision Centre, Croes Cyfrwys - ar un o'r deithiau brenhinol dyddiol o'r golau llachar i chwilio am y pafiliwn. Dim yn medawl edrych yng nghysgodion y Taffo Mahal? (ydyw ef mal Myfanwy Morris yr P.A. Chaid Arghofio...)

# Eisteddfod CENedlaethol




Yr Greenhams. Symud i lyfrau ar ddechrau'r To'au ar ôl darganfod y wlad yn ystod Halibalw'r Arfwisgo. Mynychu'r Steddfod i hyrwyddo'r mudiad heddwch ac i werthu cynnyrch eu llafur. Credwyr cryf mewn cydraddoldeb. Mae'r ddau yn un taldra, ac yn rhannu'r un pâr o sgidia'. Two Ms Greenham Heddiw am ei bod yn Ddydd Mercher.

Y Pryf Stiward (Mynnu bod yn ddienw). Ei arwyddair 'Ddei shal not pas widdowt e pas." Arbenigwr yn y dulliau diweddara' o amddiffyn. Mae'n cosbi'n hallt iawn. Ei hoff fadd - Cruise. Ai gas record - Mynediad am ddim. Sylwer ar y ddau docyn i'w fam a'i chwaer.

AR Y CYNTAF O'R mis hwn cafwyd Cadeirydd Newydd i Gyngor Defnyddwyr Cymru - sef Mrs. Rhiannon Bevan. Swydd rhan amser sy'n para am dymor o dair blynedd.

Mae Mrs.Bevan yn gyfarwydd i aelodau Sefydliad y Merched gan mai hi yw'r Swyddog Cyswllt y mudiad yng Nghymru.

Sefydlwyd Cyngor Defnyddwyr Cymru (CDC) ym 1975 i warchod buddiannau'r defnyddwyr. Mae swyddfa'r Cyngor yn Adeiladau'r Castell wrth ymyl Clwb Ifor Bach. Yno mae chwe aelod o'r staff yn gweithio ac mae deuddeg aelod o'r Cyngor o wahannol rannau o Gymru.

Enwebir cadeirydd ac aelodau CDC gan yr Ysgrifennydd Gwladol Dros Fasnach. Efallai gellir beirniadu'r dull hwn o ethol panel gan nad yw'n cynrychioli trawsdoriad o'r gymdeithas, ond mae Mrs.Bevan yn awyddus iawn i sicrhau bod barn pobl gyffredin (y mwyafrif distaw!), yn cael ei ddatgan gan y cyngor.

Er bod arian CDC yn dod o'r llywodraeth mae ganddynt annibyniaeth i fynegi barn ar ran y defnyddwyr. Nid oes pwerau statudol gan CDC ychwaith, felly mae'n dibynnu ar berswad i ddylanwadu ar y sawl sy'n penderfynu ar bolisi gan gynnwys y llywodraeth ganolog a lleol a chyrff eraill. Nid yw perswad bob amser yn llwyddiannus ond mae'r Cyngor wedi cyfrannu i newidiadau er budd defnyddwyr mewn meusydd megis trafnidiaeth cyhoeddus, diwygio cyfraith prydles a sicrhau gwell cynrychiolaeth defnyddwyr yn y diwydiant dŵr.

Mae CDC wedi cynhyrchu adroddiadau yn ddiweddar hefyd ar Rhieni ac Ysgol; Gwaith Cartref - ateb i bapur ymgynghorol yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth; Diwygio Prydlesi; Y Defnyddiwr Diwaith; S4C ; Ad-Daliad Trethi Dŵr. Ar 11 Medi cyhoeddir adroddiad am dai Cyngor.

Sefydlwyd Pwyllgor Defnyddwyr yn Fflint i arolygu'r gwasanaeth a ddarper gan swyddfa leol yr Adran Nawdd Cymdeithasol. Hwn fydd y pwyllgor cyntaf o'i fath ym Mhrydain.

Mae Mrs.Bevan o'r farn bod angen corff fel CDC er nad oes ganddo'r pwerau i wthio barn defnyddwyr ar unrhyw un: "Mae ar ddefnyddwyr Cymru angen corff a all olrhain y materion hynny sydd ag effaith unigryw neu arbennig ar Gymru megis cost uchel dŵr Cymru, problemau defnyddwyr gyda'r sustem brydles neu warchod buddiannau Cymru gyda'r sustem ddarlledu".

Deillia llawer o waith y cyngor oddiwrth gyrff cynghori eraill, oeir awgrymiadau o'r hyn y mae nhw'n ei weld fel problemau o bwys. Er enghraifft mae'n gweithio law yn llaw gyda'r Swyddfa Marchnata Teg i osgoi dyblygiad gwaith. Prif bwrpas CDC yw lleisio barn trwy wneud ymchwil i faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, ac yna defnyddio'r wybodaeth a geir i ddadlau am well byd i'r cyhoedd.

Ym marn Mrs.Bevan mae gan CDC hefyd gyfrifoldeb i ofalu bod gan y defnyddiwr wybodaeth angenrheidiol i wneud y dewis gorau pan yn prynu neu'n defnyddio gwasanaethau. Gall CDC fanteisio ar y cyfle hwn o gael Cadeirydd sydd mewn sefyllfa i gyfleu eu polisiau i'r cyhoedd trwy ei gwaith gyda Sefydliad y Merched a'u chysylltiadau a mudiadau eraill yng Nghymru.

Credaf bod barn Mrs.Bevan ar gyfleu polisiau'r Cyngor i'r cyhoedd yn bwysig iawn; efallai gall CDC wneud mwy yn y dyfodol i sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'u gwaith. Bydd hyn yn ei dro yn gymorth i'r Cyngor sicrhau bod eu gwaith yn adlewyrchu'r hyn sy' achosi gofid i ddefnyddwyr Cymru.

Mae CDC wedi cyhoeddi rhai pamffledi dwyieithog ar gyfer defnyddwyr e.e. Sganio Laser; Siopa a Chyfrifiaduron; Talu a Cherdiau Plastig. Mae gan CDC bolisi dwyieithog a dylent sicrhau bod eu cyhoeddiadau yn yr iaith Gymraeg yn enwedig gan nad yw'r Swyddfa Marchnata Teg yn cynhyrchu dim o'u gwybodaeth i ddefnyddwyr yn Gymraeg mwyach.

Edrychwn ymlaen at glywed am ddatblygiadau yng ngwaith CDC yn ystod y tair mlynedd nesaf. Gobeithio bydd y Cyngor yn manteisio ar gael Cymraes yn Gadeirydd gan sicrhau bod eu polisi dwyieiethog yn cael ei gyflawni ar bob cyfle. Dymunaf yn dda i Rhiannon Bevan - credaf bod dewis ardderchog wedi'i wneud ar ran defnyddwyr Cymru.

PWY OEDD Y DIEITHRYN?

UN NOSON DAWEL canol wythnos yn ystod gwyliau'r Pasg, roedd cymeriad unig yn eistedd ar ei ben ei hunan yng Nghlwb Ifor Bach. Roedd dosbarth Cymraeg 'Croesi'r Bont' yn eistedd gerllaw yn sgwrsio ar ôl gwers y noson. Estynwyd croeso i'r dieithryn i ymuno â'r grwp a daeth e' draw yn syth â gwen ar ei wyneb.

Roedd ei bresenoldeb yn gyfle da i ymarfer holi ac ateb, ac aeth pawb ati wrth adeiladu llun diddorol o'n hymwelydd. Ers hynny fe welir John Morton yn y clwb yn rheolaidd unwaith y mis ar ôl taith hir o'i gartre' yng Nghastell Newydd ar Dein yng Ngogledd Lloegr. Darlithydd yw e' yn ngholeg Politechneg Castell Newydd ac mae wedi bod ati'n dysgu Cymraeg ers tair mlynedd erbyn hyn.

Dechreuodd wrth wrando ar dapiau Cymraeg i ddysgwyr yn y coleg heb athro ond wedyn clywodd am Gymraes o Fangor yn byw yn agos, ac chyn bo hir dyma hi a dosbarth o chwech o 'Geordies' yn dysgu'r heniaith. Llynedd aeth John ar gwrs preswyl - wyth wythnos o hyd - yn Llanbedr Pont Steffan, ac erbyn hyn mae'n siarad yn rhwydd ac yn rhugl a'i acen 'Geordie' yn gymorth i roi naturioldeb ar ei ynganu o lafariaid Cymraeg.

Ond pam mae 'Geordie' fel John yn mofyn siarad Cymraeg?

Wel, 'does dim un o'i gyndadau'n hanu o Gymru ond roedd ei hen dadcu o wlad y Basg ac hyn sydd wedi plannu cydymdeimlad ynddo â chenhedloedd bychain fel Cymru.

Heb y cyfle i wrando ar Radio Cymru na gwylio S4C, mae John yn hoff iawn o recordiau Cymraeg fel Maffia Mr.Huws a Derec Brown ac mae'n darllen llyfrau Cymraeg yn aml.

Ar ben hynny wrth gwrs mae ymweliadau misol â Chlwb Ifor Bach, dim ond rhyw dri chan milltir lawr Heol Cunedda, yn rhoi cyfle arall iddo ymdrochi mewn awyrgylch Gymraeg. Nid yw John bellach yn ddieithryn i aelodau'r Clwb.

John Morton

# BUTLINS

WEDI CYRRAEDD oedran dwy ar bymtheg dechreuais deimlo'n euog o ofyn i mam a dad am arian er iddynt fod yn eithaf parod i'w gynnig i mi. Felly tua mis mai teimlais fod yr amser wedi dod i gael swydd rhan amser.

Mantais o fyw yn y Barri yw cyfleustra Ynys y Barri. Ar ddiwrnod braf o haf bydd miloedd yn tyrru yno ac fe fydd cymorth yn y siopau yn cael croeso mawr gan y rheolwyr. Yr unig broblem yw fod cannoedd o blant am weithio yna a gwir yw'r ddihareb: y cyntaf i'r felin gaiff falu. Ond rhywbeth gwahanol roeddwn ni'n ei ffansi a chefais gynnig swydd mewn Neuadd Ddifyrrwch (amusement arcade) yn yr enwog Butlins.

Oherwydd fod cymaint am weithio yno, tair shifft yr wythnos yn unig oedd yn rhydd, ond pa ots os yw'r swydd yn talu? Mae shifft dydd Sul yn dechrau am 9.00 tan 5.30 ac mae shifftiau nos Fawrth a nos fercher yn ymsetyn tan hanner nos.

Prif waith ceidwad neuadd ddifyrrwch yw trwsio peiriannau. Mae'n rhaid cyfaddef y tro cyntaf i mi weithio yna roedd byd electroneg yn hollol ddiethr, heblaw am lefel 'O' ffiseg. Ond wedi dau fis o waith mae rhannau cymhleth yr olwg yn dechrau dod i edrych yn eithaf syml. Dysgais cryn dipyn yno - yn enwedig pa wifrau trydan i beidio a'u cyffwrdd. Gallaf ddweud yn awr mai profiad unigryw iawn yw cael sioc drydanol oddi wrth rhai o'r peiriannau yno.

Mae dydd Sul yn Butlins yn ddiwrnod blinedig iawn. Dyna pryd mae'r neuadd ddifyrrwch ar ei phrysuraf. Daw'r miloedd i Ynys y Barri a gyda mynediad Butlins yn bum punt, a phopeth ond bwyd yn rhad ac am ddim, pwy all feio'r cannoedd sy'n ymwèld a'r gwersyll ar ddiwrnod o orffwys?

Mae'r cannoedd yn tyrru i'r neuadd i wario o leiaf punt yr un, ac mae'r peiriannau yn torri fan hyn, fan draw, plant bach yn gwichian am eu bod wedi colli arian mewn rhyw beiriant. Ac os oes peiriant yn torri, dyw'r rheolwyr ddim yn hoff o ddefnyddio sticeri 'Temporary Fault', felly brys yw hi i gael y peiriant nol i weithio.

Mantais o fod yn un o'r staff yw'r hawl i ddefnyddio'r cyfleusterau am ddim, ac ambell i nos Wener mi fydda i yn dychwelyd i'r gwersyll: na nid i weithio oriau ychwanegol, ond i fwynhau noswaith yn y clwb nos gwych sydd ganddynt yn y gwersyll. Cyfle i gwrdd a ffrindiau newydd ac, ambell i waith yn hollol annisgwyl, hen ffrindiau. Ond pwy bynnag yw'r cwmni mae pawb yn mwynhau.

Mae'r arian rwy'n ei ennill yn diflannu yn eithaf cyflym ond teimlaf fy mod yn mwy ymwybodol o'r ffordd rwy'n ei wario. yn ddiweddar roeddwn yn ddigon lwcus i basio fy mhrawf gyrru ac wrth gwrs rhaid rhoi tanwydd i mewn i'r car sydd o leiaf bum punt bob wythnos.

Dyna felly yn fras beth yw swydd mewn neuadd ddifyrrwch yn Butlins. Mae'n rhaid dweud cyn i mi gael swydd roedd y gair gwaith yn ystod gwyliau'r haf yn anfon ias oer i lawr fy nghefn, ond wedi cael y profiad yr haf yma, rhaid dweud nad yw'n syniad drwg wedi'r cwbwl. Peidiwch a gofyn sut mae gwneud arian wrth chwarae'r peiriannau pleser. Am bob un sy'n ennill mae hanner dwsin yn colli. A dyna sy'n talu 'nghyflog i.

Rhodri Ogwen.

# MABSANT

NID EMYNAU YN UNIG fydd yn codi'r to yng Nghymanfa Ganu Gogledd America ym mis Awst eleni, ond caneuon gwerin a chyfoes Cymraeg hefyd. Ymysg gwesteion Cymry America ym Montreal fydd Mabsant a fydd yn perfformio yn noson lawen y Gynhadledd.

Newydd ddychwelyd o'r Iwerddon a'r Alban y mae Mabsant, ac fe fydd eu taith cyntaf i'r Unol Daleithiau yn ystod mis Awst a Medi. Trefnwyd y daith gan Asiantiaeth NINNAU - papur Cymry America, ac fe fydd Mabsant yn perffonnio mewn cyngherddau gwyliau a cholegau ym Massachusetts, Efrog Newydd, Philadelphia, Gogledd Carolina, New Hampshire, Conneticut, Pennsylvania a Kansas.

Er mai deuawd yw Mabsant fel arfer, maent yn aml yn mwynhau cwmni cerddorion eraill ar eu llwyfannau. Mae ffidlwr, mandolinydd a chanwr piano, Bernard Kilbride o ardal Casbach, yn ymuno gyda Mabsant ar eu taith chwe wythnos. Bydd yn dechru ganol fis Awst yng Nghanolfan Sgio Hunter Mountain - gobeithio, medd Mabsant - heb yr eira, dim ond cerddoriaeth, hwyl a haul.

---

GWELLHAD: Bu'r actor Brinley Jenkins, Highfields, llandaf, yn cael triniaeth llawfeddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cafodd wellhad buan ac erbyn hyn mae yn Montreal, Canada, yn portreadu'r pregethwr Christmas Evans i fynychwyr y Gymanfa Ganu yno.

# BWTH RUTH

TYDWI DDIM AM bwysleisio'r ffaith diymwad ei bod wedi bod yn fis Awst gwlypach na'r cyffredin a dwi'n cofio'r haf honno yn ol yn y pumdegau pan fwriodd hi hen wragedd a ffyn yn gyson - ag yma yng Nghaerdydd y treuliais i'r haf honno hefyd ar wyliau hefo fy nhaid a nain. Dyna'r haf pan fu yna lifogydd dychrynllyd yn Lynmouth - ydach chi'n cofio?

Wedi imi grybwyll yr holl law, mae'n rhaid imi gyfaddef fod y potiau blodau - potiau dal bwyd lloi o fart Llanybydder - sy'n crogi wrth y reilings y tu allan i'r fflat yma yn glwstwr o flodau lliwgar. A deud y gwir dyma'r sioe ora i mi ei gael erioed, ac mae'r coed yn llawn dail braf a dyma'r haf cynta i mi weld y caeau yn ir ym mis Medi - fel arfer mae'r criced a'r tipyn haul wedi llosgi'r tir mewn mannau.

Stori wahanol iawn ydi hi ar y ffermwyr cyffredin ar bob llaw a Tom Edwards, fermwr o Sir Fon, yn galw am ddiwrnod o weddi er mwyn ymbil ar y Bod Mawr i roi'r gorau i'r glaw - beth wnawn ni eleni pan ddaw hi'n Ddiolch-garwch?

Wrth grwydro drwy Sioe Flodau Amwythig ym mis Awst mi atgoffodd Richard Bowering fi ei fod yn bryd meddwl ymhellach na Diolchgarwch hyd yn oed (gweld rownd corneli mae Richard) a'i bod yn amser cynllunio gogyfer a gwanwyn '86 a'r haf nesa. Mae'n bryd cael golwg ar y catalogau hadau, ac ail gynllunio bordor neu ddau. Wel dyna'r nosweithiau nesa' ma wedi eu clustnodi, a gan mod i wedi springclinio'r garej eleni mae gen i le clyd i ail botio'r Manawyd y Bugail - hwyl i chithau hefo'ch cynllunio!!


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# CARDIFF WELSH?

A OES GWIRIONEDD yn y si fod Clwb Rygbi Cymry Caerdydd wedi cael llond bol ar gario'r baich o enw mor hir ac annodd i'r gwrthwynebwyr ei ynganu? A welwn y Clwb yn newid ei enw i Cardiff Welsh ar ddechrau'r tymor rygbi newydd sydd wrth y drws? Dyma rai o'r amheuon sy'n cael eu gwyntyllu yng nghoridoriau pwysigion y Clwb ar hyn o bryd.

Ydy'r Clwb am hepgor y rheol Gymraeg a chaniatau nid yn unig ei chwaraewyr ond holl weithgareddau'r maes a'r pwyllgorau gael eu trafod yn Saesneg?

Mae'n gyfnod o brysur drafod ar hyn o bryd, a'r pwnc trafod yn syml ydi "chwarae rygbi yn dda, bod ar y brig a hynny ar draul y Gymraeg", ynteu "chwarae rygbi gyda phymtheg o aelodau Cymraeg eu hiaith yn y tim".

Oes, mae na ddilema yn y Clwb, ac ar ddiwedd y daith yn sicr nid rygbi fydd yn dioddef - fe wyddom hynny i sicrwydd!

Mae na garfan gref o fewn y Clwb sydd am weld Cardiff Welsh yn cystadlu gyda chlybiau eraill cylch Caerdydd am y chwaraewyr gorau posibl i'w tim - eu ffordd hwy o sicrhau dyfodol Cardiff Welsh ydi trwy fod yn boblogaidd, a pha rwyddach ffordd o wneud hynny na siarad yr un iaith a hwy a phlygu glin (neu sgrym) yn nawddoglyd i'w cyfeiriad. Ia, rygbi ar bob cyfrif, a dim ond hynny sy'n bwysig. Rhyfedd o fyd ynte, adlais perffaith o agwedd drahaus Undeb Rygbi Cymru tuag at hilyddiaeth yn Ne Affrig, ond y tro yma yn llawer nes atom o beth myrdd.

Mae na ambell un arall yn y Clwb sy'n mynnu dal at yr "hen ffordd Gymreig" o chwarae rygbi wrth reswm. Mae eu gafael hwy ar y pethau yn llawer sicrach a'u dyhead hwy yw chwarae rygbi o safon, ond o fewn fframwaith a therfynau'r iaith Gymraeg.

Llysgenhadon ydi pob un sydd yn chwarae i'r Clwb, yntau oenhadon deudwch, yn cicio, ochr-gamu a sgrymio yn erbyn llif o anobaith ar y maes rygbi. Ond o leiaf mae na fymryn o foddhad mewn gwybod fod llawer tim yn cael eu hunig gysylltiad a'r iaith Gymraeg tra'n chwarae yn erbyn Clwb Rygbi. Mae ambell i boer a rheg yn Gymraeg yn werth chweil os ydy popeth arall wedi methu.

Fechgyn, mae yna gyfrifoldeb aruthrol ar eich ysgwyddau chi pob tro y troediwch y maes rygbi ar brynhawn dydd Sadwrn. Y chi yn eich chwarae a'ch ymgomio a'ch ymdrin o'r gem sy'n cadw fflam y Gymraeg yn fyw ymysg chwaraewyr o Drelai a Threganna a phob cilfach arall o'r Brifddinas. A phwy a wyr nad dilyn eich camre chi a wnaiff Undeb Rygbi Cymru yn y pendraw. Parchwch chi eich hiaith yn y lle cyntaf ac fe gewch chi'r parch dyladwy gan y clybiau eraill pan sylweddolant faint eich cydwybod chwithau.

Ar ba ochr y saif Dafydd Hywel tybed? Fe synnech!!

# Y CYMRIC

A HITHAU AR DROTHWY tymor newydd o beldroed, tymor hanesyddol yn wir yn hanes Clwb Cymric, dyma wahoddiad twymgalon i unrhywun sy'n berchen par o sgidiau ffwtbol ac sy'n awyddus i wneud ei farc yn y gamp arbennig yma - dewch atom i'n cynorthwyo.

Bydd Clwb Cymric yn chwarae yn adran 'Premier' cyngrair Caerdydd a'r Cylch am y tro cyntaf yn ei hanes camp nid bychan a hynny ar ol un-tymor-ar-bymtheg o fodolaeth. Mae na awyrgylch da ar y cychwyn fel hyn a phawb yn awchus i glywed pib y dyfarnwr am y tro cyntaf yn y tymor newydd. Mae na ddillad newydd crand hefyd, gwyrdd wrth reswm, ond hefo streipen wen dena yn gymysg. Steil i gadw'r bechgyn ar eu gorau - toes na ddim byd tebyg i deimlo fel pel-droediwr yn nag oes.

Pob hwyl i Huw a Emyr, y capten a'i fet yn yr ymgyrch sydd i ddod.

Rhag anghofio, y rhai hynny ohonoch sydd yn credu fod uchelfannau'r 'Premier' yn ormod, beth am drio'h lwc gyda thim yr Aelwyd ym mhedwaredd adran cynghrair y 'Combination'? Dymuniadau gorau i Twics a Hefin, sydd wrth y llyw dros y tymor newydd.

Bydd ymarfer ar feysydd llandaf am 6.30pm bob nos Fawrth tra bydd y tywydd a'r golau dydd yn caniatau. mae ymarfer dan do wedi'i drefnu o hynny ymlaen. Dewch draw!

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mis cyffrous iawn i faterion y galon a mis rhamantus dros ben - mis lwcus yn ariannol hefyd. Bydd eich iechyd yn ardderchog.
TAURUS: Daw gwybodaeth i'r amlwg i'ch helpu i ddatrys problem anodd. Mis bywiog gyda phob rhwystr bach annifyr yn diflannu. Daw lwc dda a llawer o gymdeithasu hwyliog i'ch rhan.
GEMINI: Mis llewyrchus i wleidyddion neu newyddiadurwyr, byddwch yn teithio llawer. Os am fentro i fyd busnes dyma'r amser, amser da i werthu neu brynu ty.
CANCER: Cyfnod gwych i hyrwyddo'ch gyrfa. Byddwch yn teithio ac yn teimlo braidd yn aflonydd. Os bydd penderfyniad pwysig yn eich poeni dyma'r amser i'w ddatrys.
LEO: Mis rhamantus iawn - bydd pob peth yn syrthio i'w le - gyda rhai datblygiadau annisgwyl efallai. Gwyliwch rhag brifo eraill a'ch tafod.
VIRGO: Bydd arian yn syrthio i'ch col o bob cyfeiriad y mis hwn - a'r holl rwystrau yn diflannu fel mwg. Cyfnod da i ofyn am gyngor gyrfaol, ariannol neu arall.
LIBRA: Mae rhamant yn yr awyr - felly cauwch eich llygaid a neidiwch - wnewch chi ddim difaru! Mis da yw hwn i ymdrin a materion cyfrinachol o bob math - bydd eich gallu i dwrio ac ymchwilio ar ei orau.
SCORPIO: Peidiwch a cheisio gwneud gormod yn rhy fuan - yn ara deg mae ennill tir. Mis o fwynhau cymdeithasu ag hen gyfeillion.
SAGITTARIUS: Mis gwych i gymryd gwyliau os heb wneud hynny'n barod - amser da i newid eich swydd hefyd, neu i ofyn am ddyrchafiad. Efallai daw eraill atoch am gyngor.
CAPRICORN: Bydd problemau teuluol yn eich poeni'r mis hwn. Amser da i adnewyddu neu baentio'r ty. Ond mae elfen o dwyll o'ch cwmpas - yn enwedig yn y gwaith.
AQUARIUS: Bydd yr holl rwystrau bach fu'n eich poeni yn ddiweddar yn diflannu bellach - er gofalwch rhag cweryla gyda neb. Bydd perthnasau a chymdogion yn cymryd llawer o'ch amser.
PISCES: Cyfnod prysur ond llewyrchus yn y gwaith - gochelwch rhag cael damwain gyda pheiriannau. Bydd hwn yn fis da i brofi mor amryddawn a chreadigol yr ydych.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 54



AR DRAWS:

1. Ai dyma'r lle am feini gwerthfawr ar yr A5? (14)
10. Nid pantiau Pentraeth yw y rhain. (5)
11. (a 27). Pentre'r esgob a'r pistyll. (9-2-7)
12. Taniodd o yn wyllt ar rywun islaw iddo. (7)
13. Rhoi siars yn dreigledig, a chael budd ohono. (7)
14. Ann Griffiths a mam Dewi yn cyd-drefnu i'n cymell. (5)
16. Yn llwyr flinedig ar ôl cwffio o dan do. (4,5)
19. Gwna'r gorau posib o dŷ fel lord. (9)
20. Gall y cyntaf golli cant ac eto beri i'r bobl dyrru ato. (5)
22. "Addas blas i blwyf." (7)
25. Hen offeiriad yn mynegi rhagolygon yn wysg llong Iason gynt. (7)
27. Gweler 11.
28. Byddai yn rhentu. (5)
29. Achosir difwyno'r amgylchedd o gylch gwŷr all yrru. (5'1,8)

I LAWR:

2. Teimlo'n gynhyrfus o roi im loes yno. (9)
3. Gwlad y samofar. (5)
4. Gwnaed yn bosib i'r doeth dreiglo pedol a chylch cyn codi. (9)
5. "O _____ Fab y Dyn". (Eifion Wyn) (5)
6. Pen yr Wyddfa, dyweder. (9)
7. Gwelir iddi ar dro dyfu'n wyrdd. (5)
8. Y pwerau grymus oedd yn gyfrifol am wneud y peth yn bosib. (7)
9. A yw llysiau yn cofio? (6)
15. Ai cwysi sy'n rhedeg y ffordd arall yw'r pethau diriaethol? (9)
17. Swydd fy mresys! _____ -- nhrowsus i fyny. (7,2) (Cliw gwachul ar y naw, mi wn, ond felna mae hi weithiau. Ap L.)
19. Yr arf sydd yn dy feddiant i dorri coed tan. (2,5)
21. Asbri. (6)
23. Rhan o olwyn yw'r samwn? (5)
24. "_ ___ a'r gwin". (1,4)
26. Ffrwythau o rewgell y gegin. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 53

AR DRAWS: 1.Siambr; 4.Cardod; 8.Atalier; 9.Anhrefn; 11.Anesmwythyd; 12.Gwib; 13.Aeres; 14.Arbenigo; 16.Abertawe; 18.I Lawr; 20.Cwta; 21.Brawdgarwch; 23.Ffanatig; 24.Bryntni; 25.Sathrodd; 26.Purdeb.

I LAWR: 1.Satan; 2.Achlysur; 3.Brecwasta; 5.Adnod; 6.Darogan; 7.Dyfeisgar; 10.Athrawesau; 13.Ambiwlans; 15.Blinderau; 17.Realaeth; 19.Atalnod; 21.Brifo; 22.Wyneb.

CYSTADLEUAETH RHIF 53:
Daeth deg ymgais i law, oddiwrth Nan Rees, Y Barri; C.D., Cyncoed; Sioned Penllyn, Y Drenewydd, Powys; Mrs.Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; B.H., Cyncoed; Margaret Jones, Cyncoed; B.T., Cyncoed; Dr.J.B.Sykes, Walton Manor Court, Rhydychen; ac un heb ddwyn enw na ffugenw. Yr oedd nam bychan yr un ar ddwy ohonynt, a'r lleill yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Sioned Penllyn, o'r Drenewydd, a bydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 yn ei chyrraedd maes o law.

CYSTADLEUAETH RHIF 54:
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Enw neu ffugenw a chyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon, os gwelwch yn dda, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Medi 19eg.

---

CYSTADLEUAETH CWIS CLWB IFOR BACH 1985

ROEDD ENNILLWYR cystadleuaeth y llynedd, 'Meibion y Wawr' - Geraint Evans, Y Barri, Alun Reynolds a 'Cardi' ac aelod newydd y tim, Huw Reynolds, yn awyddus iawn i ennill eto. Fe lwyddon nhw i gyrraedd y rownd cyn-derfynol wrth guro Clwb Cymric ar y ffordd. Ond fe gollon nhw wedyn i dim o glwb criced Clwb Ifor Bach a aeth ymlaen i gwrdd a'r Cynganeddwyr yn y rownd derfynol.

Erbyn cwestiwn olaf y rownd olaf, ar ol cant a naw o gwestiynau, roedd y Cynganeddwyr a'r Criceadwyr yn gyfartal. Sut bynnag, y Cynganeddwyr yw'r pencampwyr newydd, sef, Iwan Llwyd, Ynyr Williams, Ifor Huws a Ceri Morgan. Ond yn barod mae timau eraill yn edrych ymlaen i'r ornest ym 1986 pryd y disgwylir y bydd cymaint a thri deg dau o dimau yn cystadlu. Croesewir timau o bob mudiad, sefydliad, grwp neu achos Cymraeg, felly os oes diddordeb gennych, cysylltwch a'r Clwb - ffon: 32199.

* Tim o ddysgwyr o ddosbarth Croesi'r Bont, Clwb Ifor Bach a gyrhaeddodd ail rownd y gystadleuaeth cwis - o'r chwith: Jaci Jones, Ceri Black, Mari Sexton.

# CRAFU CEFN

ARWR GEIRIAU

Gwyliau da? Wedi bod dros y môr i ga'l tipyn o haul? Wel, croeso 'nôl i'r Brifddinas. Hoffwn estyn croeso twymgalon i Meirion Edwards, Golygydd Radio Cymru, a ddiflannodd ar ei wyliau yn fuan ar ol ei safiad dewr yn ystod y Steddfod, pan wnaeth ei orau i dorri streic newyddiadurwyr a chyflwynwyr y BBC. Wrth i'w gyd-weithwyr ar Faes y Brifwyl, yng Nghaerdydd a thrwy Brydain, atal eu llafur gan ddangos cefnogaeth ymarferol i Alwyn Roberts, roedd M.E. mewn stiwdio yn Llandaf yn ceisio darparu sylwebaeth ar seremoni'r Fedal Ryddiaith. Whare teg, yntefe?

---

ESGOB ANNWYL!

Ers ei bennodi i swydd Prifathro Ysgol Gynradd Melin Gruffydd bu dim ond canmol ar ymdrechion Gareth Evans i hybu addysg Gymraeg yn y Brifddinas. Bu'n bennaeth ar ysgol lewyrchus sydd wedi tyfu'n gyson o ganlyniad i waith cenhadol yr ysgolion meithrin ac anogaeth frwd y Prifathro ar i rieni sylweddoli gwerth addysg Gymraeg. Ond ysywaeth pan ddaeth Mr.Evans i ystyried dyfodol addysgol ei blant ei hun bu'n rhaid gosod cefnogaeth i ysgolion Cymraeg o'r neilltu. Tynnodd ei blentyn hynaf o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a'i hanfon i'r Bishop of Llandaff Church in Wales High School. A phan ddaeth yn amser i ystyried gyrfa chweched dosbarth ei ail blentyn, doedd ddim un o ysgolion cyfun Caerdydd yn ddigon da. Rhaid oedd mynd un cam yn well ac anfon ei fab i'r gaer ysgolheigaidd breifat honno, Coleg Llanymddyfri. (Mae'n amlwg nad yw cyflogau prifathrawon, o leiaf, gynddrwg a hynny!) Dyfarnwn iddo Wobr Goffa J.Bryan Jones am ei gymwynas ag addysg uwchradd Gymraeg.

---

(HYLO) BOBOL ANNWYL!

Deallaf gan wadd a lithrodd trwy rwyd MI5 i goridorau pencadlys y BBC yn Llandaf, ('B.H.' i'r cogniscenti) bod yna gryn anfodlonrwydd ymhlith staff Radio Cymru ynghych penderfyniad y rheolwyr i ryddhau un o'u plith - Lena Pritchard Jones - am dri mis sabathol i weithio ar brosiect arbennig. Achos y gynnen yw natur y gwaith - gwrando ar Radio Cymru! Mae dyfalu mawr a wneir y gwaith (?) yma o B.H. neu o gartref.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Aled Islwyn ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen gyda'i nofel "Cadw'r Chwedlau'n Fyw". (Hwn yw'r ail dro iddo ennill y wobr - ym 1980 ennillodd gyda'r nofel 'Sarah Arall'.) Ymfalchiwn bod un o selogion Y Dinesydd wedi cael y fath glod ac anrhydedd. Os nad ydych wedi prynu a darllen y nofel eto, beth am roi cynnig arni? Cyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen, ac am £2.95 mae'n fargen!

---

CINIAWA: Croeso cynnes i Glwb Cinio Y Barri a'r Fro a fydd yn ail gychwyn ar nos Fercher, 25 Medi. Mae'r Clwb yn cyfarfod yng Ngwesty y Mount Sorrell ar y nos Fercher ola ym mhob mis. Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgrifennydd diwyd Islwyn Jones - ffon Caerdydd 594533.

CREFFTWAITH

CROESO CYNNES I bawb ymuno yng ngweithgarwch pleserus crefftwaith mewn awyrgylch Cymreig. Bwriad y cwrs yw cyflwyno'r crefftau creadigol a thraddodiadol. Does dim angen profiad! Ar ddechrau pob dosbarth wythnosol ceir arddangosiad o wahanol grefftau gydag enghreifftiau, a digonedd o syniadau i bawb gael datblygu'r grefft. Bydd y crefftau yn cynnwys Clytwaith (Patchwork), Cwiltwaith, 'transfer dyes' ar ddefnydd sidan, Smocwaith, applique a collage.

Cynhelir y dosbarth gan Sandra Rose yng Nghanolfan Glantaf, bob nos Lun gan ddechrau ym mis Medi.

Ceir manylion pellach oddiwrth y Ganolfan - ffon 842056.

---

I'R ORSEDD: Llongyfarchiadau i Gwenllian Gwyn Jones ar gael ei derbyn i'r Orsedd yn Y Rhyl. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant tra ar yr un pryd yn meddwl amdani hi a Gwyn yn eu gofid.

GORSEDDU: Llongyfarchiadau i Lynn Evans, Cyncoed, ar ei dderbyn i'r Orsedd.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**


SHERMAN

THEATR Y SHERMAN, CAERDYDD

THEATR WHARE TEG

YN CYFLWYNO

"MARINA FAWR TRELECH"

gan ALUN JONES

DRAMA GOMISIWN EISTEDDFOD Y RHYL 1985
(GYDA CHYDWEITHREDIAD CYMDEITHAS THEATR CYMRU)

Y CYMERIADAU - fel yr ymddangosant

MENNA DAVIES.....GWYNETH HOPKINS
SOLOMON S.PRITCHARD.....STIFYN PARRI
DANIEL S.PRITCHARD.....W.J.PHILLIPS
MISS CLARKE.....MARI GWILYM
G.HANNAH PRITCHARD.....MYFANWY TALOG
PARRY.....SEIRIOL THOMAS
YR AROLYGYDD JAMES.....GARI WILLIAMS

DIGWYDD Y DDRAMA YN SWYDDFA DANIEL S.PRITCHARD, CYFREITHIWR, AR DDAU DDIWRNOD YN OLYNOL.

MEDI 12, 13 a'r 14eg
I ddechrau am 8.00 o'r gloch

Tocynnau: £3.70; gostyngiad i £2.70

Swyddfa Docynnau: Caerdydd 30451